COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MAWRTH, 23 CHWEFROR 2021, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |
| NA Burnett | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

622. DATGAN DIDDORDEB

Dim

623. CYTUNO COFNODION

CYTUNWYD: Y dylid derbyn cofnodion 19/01/2021 fel bod yn gywir.

624. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2023 ADOLYGWYD AR GYFER 2021-2022

Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad i geisio cefnogaeth i Gynllun Corfforaethol 2018-2023 y Cyngor a adolygwyd ar gyfer 2021-22 (Atodiad A) cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gadarnhau.

Eglurodd fod y Cynllun Corfforaethol 2018-2023, yn disgrifio gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, ein 3 nod lles a'r gwerthoedd sefydliadol sy'n Sylfaen i'r modd yr ydym yn gweithio ac yn cyflawni ein blaenoriaethau. Mae hefyd yn cynrychioli'r cyfraniad i gyflawni'r 7 nod lles cenedlaethol.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cynllun Corfforaethol wedi'i adfywio ar gyfer 2021-22. Digwyddodd hyn yn sgil proses gynllunio'r Cynllun Corfforaethol gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaethau drwy dîm rheoli adrannol pob Cyfarwyddiaeth. Cynhaliwyd y broses rhwng mis Hydref 2020 a mis Rhagfyr 2020 er mwyn adolygu gwelliant a chreu cynllun symlach.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y targedau a osodwyd wedi mynd yn angof yn sgil Covid-19, oherwydd nad oedd y dangosyddion perfformiad a'r data a gasglwyd yn nodweddiadol o berfformiad blwyddyn gyffredin.

Cyfeiriodd at y ffaith fod y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu wedi ystyried y cynllun diweddaraf ar 14 Ionawr 2021 gan wneud nifer o sylwadau adeiladol, a ychwanegwyd at y cynllun diweddaraf os yn ddichonadwy. Byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r cynnydd yn unol â'r cynllun.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid am yr adroddiad. Nododd mai dyma'r adroddiad pwysicaf i'r Cabinet ei dderbyn ac roedd yn falch iawn o ymroddiad yr Aelodau drwy gyfrwng y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu fel y dangoswyd yn y cynllun.

Croesawodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar yr adroddiad gan nodi, o ystyried y sefyllfa yr oeddem wedi bod yn ei wynebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ei bod yn falch o weld cydweithio a bod sawl perthynas wedi'i chryfhau. Eglurodd fod yr agenda atal yn hollbwysig ac wedi'i chydnabod felly yn ystod y pandemig.

Cefnogodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywiad y datganiad yn ymwneud â dangosyddion perfformiad gan ddweud fod hyn yn amlwg iawn o fewn y sector addysg. Talodd deyrnged i brif athrawon, athrawon, rhieni a phlant oedd wedi dioddef caledi yn ystod Covid-19 gan ddweud fod yr heriau'n drechadwy.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yr holl swyddogion oedd wedi cyfrannu at yr adroddiad a'i wneud mor ddarllenadwy. Cyfeiriodd at nifer o feysydd pwysig oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad gan nodi ei bod yn falch i weld fod yr agwedd amgylcheddol yn bwysig a heb fynd yn angof ymysg eraill.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i bawb a fu'n rhan o lunio'r adroddiad ac roedd yn hynod falch o'r staff oedd wedi camu i'r adwy yn ystod y cyfnod anodd hwn – nifer ohonynt yn ymgymryd â rôl newydd ac anghyfarwydd. Diolchodd hefyd i'r tîm cyllid am ddosbarthu gwerth £30 miliwn o grantiau busnes i fusnesau lleol oedd eu hangen.

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod llawer o fanylion yr adroddiad yn bwysig ac yn cynnwys cynlluniau hanfodol ond eto heb fod yn rhestr lafurus o bopeth a gyflawnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont. Roedd llawer o wasanaethau a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont heb eu cynnwys o reidrwydd yn y Cynllun Corfforaethol, er eu bod lawn mor bwysig.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Cymunedau i'r tîm a luniodd yr adroddiad am gyflwyno strategaeth drylwyr a chydlynol o safbwynt rhwydweithiau gwres. Eglurodd nad oedd y tîm yn un mawr, ond roedd pawb wedi gweithio'n ddiflino ar y strategaethau yma ac roedd yn bwysig nodi hynny.

<u>CYTUNWYD:</u> Y Cabinet:

Cefnogwyd y Cynllun Corfforaethol 2018-2023 a adolygwyd ar gyfer 2021-22 a'i argymell i'r Cyngor ei gymeradwyo ar 24 Chwefror 2021.

625. <u>STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG (MTFS) 2021-22 I 2024-25</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2021-22 i 2024-25, a gynhwysir yn Atodiad 3, gan gynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2021-25, cyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2021-22 a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020-21 tan 2030-31.

Eglurodd fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) yn atodol i Gynllun Corfforaethol y Cyngor, a'i fod yn cynnig yr adnoddau i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion lles. Amlinellodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) yr egwyddorion a rhagdybiaethau manwl sy'n gyrru cyllideb a phenderfyniadau gwariant y Cyngor, y cyd-destun ariannol ar gyfer gweithrediadau'r Cyngor, gan geisio lleihau unrhyw risgiau a phwysau ariannol wrth symud ymlaen, yn ogystal â manteisio ar unrhyw gyfleoedd posib.

Ychwanegodd fod setliad terfynol llywodraeth leol ar gyfer 2021-22 tua deufis yn hwyr na'r arfer, yn sgil yr oedi yng nghanlyniad Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr llywodraeth y DU, o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Nid oedd disgwyl cyhoeddi'r setliad terfynol tan 2 Mawrth 2021 ac oherwydd hynny, cyflwynwyd y gyllideb hon ar sail y setliad dros dro a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2020. Cyflwynwyd cefndir pellach yn adran 4 yr adroddiad.

Amlinellodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid oblygiadau ariannol fel y nodwyd yn adran 8 yr adroddiad. Pwysleisiodd mai'r risg ariannol fwyaf oedd yn wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd oedd yr un yn ymwneud â'r ansicrwydd ynglŷn ag ariannu Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cyllid i leihau effaith Covid-19, yr anhawster cynyddol wrth gyflwyno'r toriadau arfaethedig yn y gyllideb yn ogystal ag adnabod argymhellion pellach.

Diolchodd yr Arweinydd i'r tîm am yr holl waith ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) yn ogystal â'r Rhaglen Gyllid 2020-21 tan 2030-31 yn enwedig yn wyneb heriau'r flwyddyn ddiwethaf.

Holodd y Dirprwy Arweinydd os oedd yna unrhyw argymhellion eraill o safbwynt y gyllideb.

Dywedodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd yna unrhyw argymhellion eraill o safbwynt y gyllideb. Dydd Gwener diwethaf oedd y dyddiad cau ar gyfer cynnig argymhellion eraill, a doedd dim wedi dod i law o fewn y cyfnod gofynnol.

Diolchodd Dirprwy Arweinydd y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb am yr amser a dreuliwyd yn ystyried y wybodaeth, craffu a chynnig mewnbwn. Ychwanegodd fod mewnbwn Aelodau Annibynnol y Panel yr un mor werthfawr. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at y 14 argymhelliad a wnaed gan y Panel gan ymhelaethu ar ymatebion y Cabinet.

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod cyfraniadau'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu a phob Aelod etholedig y tu allan i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd yn werthfawr ac wedi eu hystyried wrth lunio'r gyllideb, a oedd yn amlwg yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd.

Dywedodd yr Arweinydd na chafodd yr argymhellion ar gyfer y gyllideb eu datblygu dros nos, a bod y broses wedi bod yn un hir a chraff a ddechreuodd bron yn syth ar ôl y gyllideb flaenorol. Gofynnodd i'r Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid i egluro'r llinell amser yn y cyswllt hwn.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid fod y broses wedi dechrau'n fuan iawn ar ôl pennu cyllideb 2020, a hynny ar ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth 2020 a bod y Cabinet yn ymwybodol o'r llinell amser ar gyfer argymhellion cyllideb 2021 yn fuan wedyn. Eglurodd fod cyfarfod cyntaf Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP) wedi digwydd rhwng diwedd mis Mai a dechrau mis Mehefin 2020 pan gynhaliwyd y trafodaethau cychwynnol ynglŷn â'r argymhellion. Rhoddwyd sawl cyfle wedyn i'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg Testun graffu ar feysydd arbennig o safbwynt yr argymhellion yn ymwneud â'r gyllideb, yn ogystal â thrafod a chynnig argymhellion. Cafodd y cyfan ei gyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu gyda holl aelodau'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg Testun yn cael eu gwahodd i'r trafodaethau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cymunedau fod cynnydd o 3.9% yn Nhreth y Cyngor wedi'i argymell gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS), a oedd yn well cynnig na'r

hyn a ddisgwyliwyd ar ddechrau'r broses. Holodd beth oedd y sefyllfa o safbwynt ein treth cyngor ni mewn cymhariaeth ag Awdurdodau Lleol eraill.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid, er na allai roi ateb pendant gan nad oedd llawer o awdurdodau lleol wedi cynnal eu cyfarfod cyllideb hyd yn hyn, dangosai trafodaethau cynnar fod awdurdodau lleol eraill yn edrych at gynnydd tebyg yn nhreth y cyngor a bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn argymell rhywfaint o gynnydd yn nhreth y cyngor.

Eglurodd yr Arweinydd y gallai nifer o drigolion fod yn wynebu anawsterau wrth dalu treth y cyngor. Holodd os oedd yna fesurau ar waith i helpu'r rhai oedd yn y fath sefyllfa

Eglurodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid y gallai trigolion cymwys wneud cais i'r Cynllun Leihau Treth y Cyngor, oedd yn fodd o gynnig helpu i'r rhai ar incwm isel neu'r rhai oedd newydd golli eu swyddi o ganlyniad i Covid-19. Ychwanegodd fod rhai newidiadau wedi eu gwneud i'r ffordd y gellid talu treth y cyngor, yn cynnwys rhoi'r cyfle i drigolion dalu yn ystod y 10 mis olaf yn hytrach na'r 10 mis cyntaf. Ychwanegodd fod agwedd bersonol a rhagweithiol wedi'i chymryd drwy fynd i'r afael â deall amgylchiadau personol a chefnogi trigolion gorau posib wrth dalu treth y cyngor a sicrhau fod y rhai sy'n gymwys yn ymwybodol o'r Cynllun Lleihau Treth y Cyngor.

Nododd yr Arweinydd fod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont gronfeydd arian wrth gefn. Holodd beth oedd diben y cronfeydd yma.

Ymhelaethodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid ar y cronfeydd wrth gefn ac ar gyfer beth y clustnodwyd bob canran o'r cronfeydd, oedd yn ymwneud â, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Costau rhedeg y Cyngor
- Rhaglen Gyfalaf
- Rheoli Asedau
- Cronfa Covid-19
- Grantiau ariannu
- Ceisiadau sylweddol, ad-drefnu gwasanaeth, yswiriant a thâl diswyddo.

Eglurodd yr Arweinydd fod Archwilwyr o Archwilio Cymru yn archwilio cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn gyson ac yn gallu cynnig argymhellion ynglŷn â sut y dylai'r Cyngor ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn.

Ymhelaethodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid ar y mater hwn gan ddweud fod Archwilwyr yn edrych yn ofalus ar y cronfeydd wrth gefn gan sicrhau fod yr arian hwnnw'n cael ei glustnodi fel rhan o'u criteria prawf. Roeddent hefyd wedi ymgymryd â gwaith yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol ac wedi cynnig sylwadau ffafriol ar gronfeydd wrth gefn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont o safbwynt cynllunio ariannol.

Cefnogodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r dyfodol yr adroddiad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r argymhellion o safbwynt y gyllideb am y rhesymau canlynol:

- fod gan bob Aelod gyfle i gynnig mewnbwn
- fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal i drafod cynnwys y gyllideb a bod newidiadau wedi digwydd yn sgil hynny
- fod lles a chenedlaethau'r dyfodol wedi eu hystyried wrth lunio argymhellion a amlygwyd gan y nifer o'r agweddau yma a gynhwyswyd yn yr atodiadau.

CYTUNWYD: Derbyniodd y Cabinet y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2021-22 tan 2024-25, yn cynnwys y gyllideb refeniw a Rhaglen Gyfalaf 2020-21 tan 2030-31, gan argymell yr elfennau canlynol i'r Cyngor eu derbyn:

- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2021-22 tan 2024-25 (Atodiad 3).
- Gofynion y Gyllideb Net o £298,956,245 yn 2021-22.
- Treth Cyngor Band D o £1,597.01 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar gyfer 2021-22 (Tabl 17 o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS)).
- Cyllidebau 2021-22 a glustnodwyd yn unol â Thabl 10 ym mharagraff 4.1.3 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS).
- Rhaglen Gyfalaf 2020-21 tan 2030-31, a atodir yn Atodiad H y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS).

626. STRATEGAETHAU RHEOLI'R TRYSORLYS A CHYFALAF 2021-22 YMLAEN

Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad oedd yn amlinellu Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2021-22 (Atodiad A), a oedd yn cynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, a Strategaeth Gyfalaf 2021-22 tan 2030-31 (Atodiad B), sy'n cynnwys y Dangosyddion Ariannol, a'r Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol 2021-22 (Atodlen A o Atodiad B), cyn eu cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo.

Rhoddodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid gefndir Rheoli'r Trysorlys a'r cyswllt â gweithgareddau benthyca o safbwynt Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA). Cafwyd cefndir pellach yn adran 3 yr adroddiad.

Eglurodd fod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021-22 yn Atodiad A yn cadarnhau cydymffurfiaeth y Cyngor â Chod Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), oedd yn gofyn am fabwysiadu amcanion ffurfiol, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd cynhwysfawr, a rheoli risg yn effeithiol fel prif amcanion y gweithgareddau yma. Amlinellodd amrywiol adrannau'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021-22 a'r Strategaeth Gyfalaf 2021-22 tan 2030-31.

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad gan ddiolch i'r Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid am yr adroddiad cynhwysfawr a'r tîm oedd wedi gweithio'n galed i'w lunio.

Nododd y Dirprwy Arweinydd, yng nghyswllt yr estyniad i fenthyg arian o £1 filiwn i £2 filiwn ar gyfer cerbyd pwrpas arbennig, nad oedd hyn yn golygu y byddai'r Cyngor yn gwneud hynny, a byddai angen cyfiawnhad ar gyfer y fath lefel o wariant.

Holodd y Dirprwy Arweinydd am fanylion pellach ynglŷn â'r asesiad dichonolrwydd a faint o fanylion fyddai eu hangen.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid mai bwriad yr argymhellion a wnaed gan Archwiliad Mewnol oedd cryfhau'r cyswllt rhwng dichonolrwydd a chost ac effeithiolrwydd y gwaith ac i sicrhau fod y Cyngor wedi dysgu gwersi oddi wrth waith blaenorol yng nghyswllt cynllunio.

Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod dichonolrwydd yn rhan hanfodol o unrhyw brosiect yr oedd y Cyngor yn ymgymryd ag ef, a bod elfennau yr edrychwyd arnynt yn lefel cyraeddadwy, gochelgar o fuddsoddiad, boed angen caniatâd

cynllunio ai peidio yn ogystal â risg. Arweiniodd hyn at ddyraniad cadarn o safbwynt y gyllideb gan gynnwys cronfa wrth gefn o 10-15% ar gyfer unrhyw amgylchiadau anrhagweledig a allai ddigwydd.

Adleisiodd yr Arweinydd sylwadau'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol ynglŷn â dichonolrwydd a oedd yn dangos manylder y gwaith ar brosiectau a chymaint o reoli risg a chynllunio i'r dyfodol oedd yn digwydd.

CYTUNWYD: Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad gan nodi y dylai'r canlynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo:

- Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2021-22 yn cynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys 2021-22 tan 2023-24 (Atodiad A);

- y Strategaeth Gyfalaf 2021-22 tan 2030-31 yn cynnwys y Dangosyddion Ariannol 2021-22 tan 2023-24 (Atodiad B);

- y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol (MRP) 2021-22 (Atodiad B - Atodlen A).

627. EITEMAU BRYS

Dim